CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Grantiau bach, effaith fawr



Tachwedd 2023

# Cynnwys


Rhagair y Prif Weithredwr ........ 3

Cyflwyniad ........ 6

Trosolwg o'r newidiadau ........ 10

Cyrhaeddiad rhanbarthol ........ 13

Astudiaethau achos ........ 15

Sut rydym ni'n dyfarnu arian ar gyfer Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ........ 28

Casgliad ........ 31


**Dogfen ryngweithiol yw hon**

Gallwch lywio drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r dolenni yn y tabl cynnwys a'r botymau ar waelod pob tudalen.



Canolfan Tobin, Gogledd Iwerddon

# Rhagair y Prif Weithredwr




Barrow Farm Riding for the Disabled, Lloegr

# Rhagair y Prif Weithredwr

Mae ein strategaeth **Cymuned yw'r Man Cychwyn** newydd yn gosod cysylltiadau cymdeithasol a gweithgarwch cymunedol wrth galon creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus. O'n hymgysylltiad â chymunedau a'n gwaith, rydym ni'n gwybod mai grantiau bach yw blociau adeiladu hanfodol cymuned.

**Grantiau bach** yw lle rydym ni'n gweld y cyrhaeddiad pellaf: maen nhw wedi cyrraedd **90%** o awdurdodau lleol ledled y DU ac yn darparu cefnogaeth i brosiectau cymunedol lleol, dan arweiniad pobl leol, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Dyma lle rydym ni wedi gweld yr effaith fwyaf sylweddol, gan greu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli a chyrraedd mwy o bobl. Dyma lle rydym ni wedi croesawu'r rhan fwyaf o gwsmeriaid tro cyntaf i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â ni a'n gwaith mewn cymunedau.

Grantiau bach yw ein llwybr ariannu mwyaf hyblyg a chyflym. Mae'r grantiau'n cefnogi cymunedau gyda grantiau i ddarparu'r gweithgareddau a'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Dyna pam mai nodwedd gyntaf ein strategaeth a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2023 oedd dyblu ein harian cymunedol ar lawr gwlad. Rydym ni wedi ymrwymo i ddyblu maint y grantiau posibl a'r amser y gall unrhyw brosiect redeg amdano, sef y newid mwyaf i gyllid y Loteri Genedlaethol ers cenhedlaeth.

Rydym ni wedi cyflawni hyn a thrwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, gall prosiectau cymunedol nawr wneud cais am grant rhwng £300 ac £20,000 ar unrhyw un adeg, gan dderbyn uchafswm o £20,000 mewn cyfnod o 12 mis. Gall grwpiau gymryd hyd at ddwy flynedd i gyflawni eu prosiect a chyn gynted ag y byddant wedi cau un dyfarniad grant gyda ni, gallant ddewis ailymgeisio ar gyfer prosiect newydd.

Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd ariannu yn nwylo cymunedau eu hunain ac yn golygu y gall grwpiau dderbyn uchafswm o £20,000 o fewn cyfnod o 12 mis, a £40,000 o fewn cyfnod o ddwy flynedd.

Rydym ni'n gyffrous i weld y syniadau mae cymunedau'n eu cynnig nawr ein bod ni wedi datgloi mwy o arian a mwy o hyblygrwydd.

**Roedd 82%**

o'n holl grantiau a wnaed yn 2022 2023 am lai na £10,000, sef 11,600 o'r 13,800 o grantiau a wnaed yn y flwyddyn ariannol honno. Gwnaed y rhan fwyaf o'r grantiau bach hyn trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol gan gefnogi sefydliadau llawr gwlad sydd wrth wraidd cymunedau ledled y DU i weithredu ar y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

Wrth edrych yn ôl ymhellach, dros y pum mlynedd diwethaf rydym ni wedi gweld £3 biliwn yn cael ei ddyfarnu mewn bron i 76,000 o grantiau bach, gan gyrraedd cymunedau ledled y DU. Bob blwyddyn, mae dros 3.1 miliwn o bobl yn elwa o brosiectau Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.

Yn gynharach eleni, ymwelais ag un o'n prosiectau a ariennir gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol gyda'r Gweinidog Cymdeithas Sifil. Wedi'i leoli yn Lerpwl, mae'r sefydliad gwych Daisy Inclusive UK yn cefnogi pobl ifanc ag anableddau neu mewn sefyllfaoedd bregus i gyrraedd eu potensial llawn, trwy wasanaethau sy'n cynnwys cymorth addysg a chyflogaeth, a chyngor iechyd meddwl arbenigol.

Dros bêl-droed a the, teimlais y gwahaniaeth sy'n newid bywydau mae'r un grant bach hwn wedi ei wneud i gynifer o fywydau, yn ogystal â'r angerdd a'r balchder yr oeddent i gyd yn ei deimlo dros eu cymuned wrth i Lerpwl gynnal Cystadleuaeth Cân Eurovision.

Mae ein grantiau Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol hefyd wedi galluogi grwpiau i ddathlu eiliadau cenedlaethol allweddol, megis 75 mlynedd ers i HMT Empire Windrush gyrraedd Prydain. Llwyddodd Canolfan Newyddion Nottingham i gynllunio cyfres o ddigwyddiadau gwych ac adnoddau addysgol i arddangos rôl sylweddol cyn-weithwyr diwydiannol yn eu hardaloedd lleol, llawer ohonynt o genhedlaeth Windrush.

Rydym ni wedi cael ein hysbrydoli i ail-edrych ar Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol oherwydd yr hyn rydym ni wedi'i weld, ei deimlo a'i glywed am y gwahaniaeth enfawr mae symiau bach o arian yn ei wneud bob dydd. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'r straeon mae'n eu hadrodd, yn eich ysbrydoli ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn gwybod mai Cymuned yw'r Man Cychwyn.

**David Knott**
**Prif Weithredwr**
**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**





# Cyflwyniad

Unity Hubb, Lloegr

# Pam grantiau bach?

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi treulio bron i dri degawd yn cefnogi prosiectau anhygoel sy'n gwasanaethu fel asgwrn cefn eu cymunedau, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'u cefnogaeth i achosion da ledled y DU.

Fel yr ariannwr mwyaf ar gyfer gweithgarwch cymunedol yn y DU, gwyddom fod cysylltiadau cymdeithasol a phrosiectau cymunedol wrth wraidd creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus.




The Ashton Group Theatre
Lloegr

Wrth wraidd ein rhaglenni ariannu mae grantiau bach, yr ydym ni'n eu dyfarnu i brosiectau cymunedol ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Ym mis Tachwedd 2023, fel rhan o'n strategaeth hyd at 2030, rydym yn ailymrwymo i grantiau llai wrth i ni ddiweddaru ein rhaglen ariannu fwyaf sy'n agored i bawb,Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol. **Rydym ni'n dyblu maint y grant posibl sydd ar gael i £20,000 a'r amser y gall unrhyw brosiect redeg amdano (hyd at ddwy flynedd).** Mae hyn yn sicrhau y gall prosiectau cymunedol gynnal hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n gwneud cais am ein cyllid a sut maen nhw'n ei ddefnyddio.

O'n profiad hir a'n tystiolaeth, rydym ni'n gwybod mai ein grantiau bach yw'r ffordd fwyaf effeithiol sydd gennym ni o gefnogi sefydliadau a phobl leol sy'n anadl einioes eu cymunedau.

Mae'n hawdd cyrchu grantiau bach drwy un ffurflen gais sy'n llai manwl ac sy'n galluogi arian i gyrraedd cymunedau yn gyflym. Mae grantiau bach yn dod â phobl ynghyd, gan gadw adeiladau a mannau cymunedol ar agor. Maen nhw'n caniatáu i brosiectau cymunedol roi lle cynnes a chroesawgar i bobl unig a hŷn gwrdd, sicrhau bod pobl o bob oed yn cael mynediad at erddi cymunedol, ac yn darparu cymorth iechyd meddwl.

Rydym ni hefyd wedi defnyddio grantiau bach i ddod â chymunedau ynghyd i nodi eiliadau cenedlaethol cofiadwy, yn fwyaf diweddar i ddathlu 75 mlynedd ers Windrush, i nodi Coroni'r Brenin ac i gefnogi cymunedau i groesawu ffoaduriaid o Wcráin fel rhan o ddathliadau Cystadleuaeth Cân Eurovision 2023.



Coedwig Gymunedol Longwood, Cymru

# Targedu ardaloedd o angen

Mae ein cyllid grantiau bach ar gael i bob cymuned ac rydym ni'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar ecwiti tuag at ein cyflawniad. Ein nod yw cefnogi cymunedau i adeiladu o'u cryfderau drwy ariannu'r hyn sydd bwysicaf iddynt. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n buddsoddi fwyaf mewn lleoedd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

- Yn Lloegr, dyfarnwyd ychydig o dan 50% o'r grantiau i'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr.
- Yn yr Alban, dyfarnwyd 40% o'r grantiau i'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban.
- Yng Ngogledd Iwerddon, dyfarnwyd ychydig o dan 50% o'r grantiau i'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon.
- Yng Nghymru, dyfarnwyd ychydig o dan 40% o'r grantiau i'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

# Ein heffaith

Bob blwyddyn mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi **5.2 miliwn o bobl** drwy ein grantiau gyda **3.1 miliwn yn cael mynediad at grantiau bach.**

Yn 2022-2023, fe wnaethom ni ddyfarnu **11,600** o grantiau bach, gyda chyfanswm o ychydig dros

**£99m**

Mae hynny'n gyfystyr ag ychydig llai nag **un ran o chwech** o'n grantiau.

**60%**

o'n dyfarniadau yn mynd i sefydliadau sydd â throsiant o lai na **£100,000.** Maint cyfartalog dyfarniadau ydy ychydig dros **£8,000.**

**40%**

Yn 2022-23 , derbyniodd dros **40%** o'r sefydliadau a ariannwyd gennym ein grantiau am y tro cyntaf.

**80,000**

Mewn blwyddyn arferol, mae ein grantiau'n ariannu'r gwaith o recriwtio **80,000** o wirfoddolwyr newydd yn uniongyrchol, gan alluogi deiliaid grantiau i weithio gyda'i gilydd gyda thua **290,000** o wirfoddolwyr i gyd.

Yn 2022-23, y pedair thema uchaf ar draws ein grantiau bach oedd:

1. **Cymuned / dod ynghyd**
2. **Iechyd a lles**
3. **Addysg a dysgu**
4. **Amgylchedd**



L’Arche Village, Gogledd Iwerddon

# Trosolwg o’r newidiadau

# Cymuned yw'r man cychwyn

Lansiwyd ein strategaeth newydd, **Cymuned yw'r man cychwyn** yn haf 2023 a thrwyddi rydym wedi ymrwymo i wario £4 biliwn erbyn 2030, gan gefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn, yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.

Fel rhan o'n strategaeth rydym ni wedi cyflwyno pedair cenhadaeth ariannu a arweinir gan y gymuned:

- cefnogi cymunedau i ddod ynghyd
- cefnogi cymunedau i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol
- cefnogi cymunedau i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu
- cefnogi cymunedau i alluogi pobl i fyw bywydau iachach.

Mae ein grantiau bob amser wedi cefnogi'r meysydd hyn. Nawr rydym ni'n mynd ymhellach, gan ganolbwyntio ein grantiau, effaith a gwaith gyda phartneriaid o'u cwmpas i gael mwy o effaith.

Ochr yn ochr â'r cenadaethau, un o dri phrif nodwedd y strategaeth yw newid sut rydym ni'n mynd ati i ymdrin â grantiau cymunedol ar lawr gwlad, gan ein bod ni'n gwybod mai dyma lle mae ein cyllid yn cyrraedd bellaf a lle mae'n cefnogi ac yn creu'r cyfleoedd gwirfoddoli mwyaf.

Yn ganolog i'r strategaeth oedd ein haddewid i gyflwyno newidiadau i Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a'n huchelgais i gefnogi prosiectau cymunedol ar lawr gwlad ymhellach ledled y DU. Ym mis Tachwedd 2023, bydd y newid mwyaf i Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol am genhedlaeth yn cael ei roi ar waith.



Banc Bwyd Bangor a Chymorth Cymunedol, Gogledd Iwerddon

# Crynodeb o'r newidiadau allweddol

O 15 Tachwedd 2023, rydym ni'n cynyddu'r cyllid rydym ni'n ei roi i brosiectau cymunedol llai ledled y DU gyfan.

Trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, gall grwpiau cymunedol o bob rhan o'r DU wneud cais am gyllid rhwng £300 ac £20,000 ar unrhyw un adeg, gan dderbyn uchafswm o £20,000 mewn cyfnod o 12 mis.

Gall grwpiau gymryd hyd at ddwy flynedd i gyflawni eu prosiect a chyn gynted ag y byddant wedi cau un dyfarniad grant gyda ni, gallant ddewis ailymgeisio ar gyfer prosiect newydd.

Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd ariannu yn nwylo cymunedau eu hunain ac yn golygu y gall grwpiau dderbyn uchafswm o £20,000 o fewn cyfnod o 12 mis, a £40,000 o fewn cyfnod o ddwy flynedd.

Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i bob prosiect ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a phrosiectau a arweinir gan y gymuned gyda ffocws cymunedol yn yr Alban.[1]

Bydd rhoi hyd at ddwy flynedd i brosiectau gael eu cwblhau yn golygu mwy o hyblygrwydd i brosiectau yn ogystal â rhoi ymrwymiad hirach i dimau prosiect eu hunain i gyflawni ar lawr gwlad.
Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol sydd â'r cyrhaeddiad ehangaf o'n holl gyllid ac yn aml dyma'r dyfarniad grant cyntaf mae cymuned yn ymgeisio amdano gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Trwy ein ffocws ecwiti newydd — ar gymunedau sy'n profi tlodi, gwahaniaethu ac anfantais

— nod yr adnewyddu yw ehangu ei gyrhaeddiad i'r rhai nad oeddent yn credu y byddent yn derbyn arian yn ogystal â gwella hygyrchedd i hyd yn oed mwy o gymunedau nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym ni wedi codi'r terfyn uchaf y gall grwpiau ymgeisio amdano i £20,000, yn rhannol oherwydd ein bod yn cydnabod bod costau prosiect wedi newid dros amser a bod Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yma i bob cymuned fel ffordd syml o geisio arian grant hanfodol.

Nid yw ein blaenoriaethau ariannu ar gyfer Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol wedi newid. Y rhain yw:

**1. Dod â phobl at ei gilydd i feithrin perthnasoedd cryf mewn cymunedau ac ar draws cymunedau.**

**2. Gwella'r lleoedd a'r mannau sy'n bwysig i gymunedau.**

**3. Helpu mwy o bobl i gyrraedd eu potensial, trwy eu cefnogi ar y cam cynharaf posibl.**

**4. Cefnogi pobl, cymunedau a sefydliadau sy'n wynebu mwy o ofynion a heriau oherwydd yr argyfwng costau byw.**

1 Bydd grwpiau sy'n gwneud cais am grantiau NLA4A sydd â ffocws celfyddydol neu chwaraeon yn bennaf yn parhau i gael eu hariannu trwy ein partneriaeth â Creative Scotland a Sportscotland o dan ein rheolau presennol. Mae hyn yn golygu y bydd grwpiau'n gallu gwneud cais am hyd at £10,000 ac ni all hyd eu prosiect fod yn hwy na 12 mis.



# Cyrhaeddiad rhanbarthol

Nottinghamshire Chinese Welfare Association
Lloegr

# Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol 2022-23*

## Dros £99m a 11,600 o ddyfarniadau



**Yr Alban**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£10.8m**
1,381 o ddyfarniadau

**Gogledd Ddwyrain**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£5m**
594 o ddyfarniadau

**Dwyrain Canolbarth Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£5.9m**
702 o ddyfarniadau

**Gogledd Iwerddon**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£5.6m**
671 o ddyfarniadau

**Swydd Efrog a'r Humber**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£7.7m**
882 o ddyfarniadau

**Dwyrain**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£5.6m**
712 o ddyfarniadau

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£8.7m**
1,016 o ddyfarniadau

**Gogledd Orllewin**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£13.6m**
1,556 o ddyfarniadau

**Llundain**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£12.2m**
1,438 o ddyfarniadau

**Cymru**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£6.1m**
736 o ddyfarniadau

**De Orllewin**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£7.9m**
963 o ddyfarniadau

**De Ddwyrain**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **£8.4m**
1,032 o ddyfarniadau

**Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd: **Dros £75m**
**9,000** o ddyfarniadau

(*) Wedi'i fesur o flwyddyn ariannol 2022/2023

# Astudiaethau achos




Balnamore Community Centre
Gogledd Iwerddon



Rydym ni wedi darparu rhai enghreifftiau o sut mae ein harian grantiau bach yn cefnogi cymunedau lleol ledled y DU, boed hynny drwy brosiectau sy'n dod â phobl ynghyd, yn gweithio i wella iechyd a lles pobl, yn cynyddu eu dysgu neu'n gweithio i wella'r amgylchedd.

> "Mae ein grŵp wedi bod yn coladu, yn cadw ac yn rhannu ein treftadaeth amrywiol a diwydiannol. Rydym ni'n mwynhau eiliadau fel hyn lle gall cymunedau ddod at ei gilydd i rannu a chlywed atgofion, profiadau byw a chyflawniadau cenhedlaeth Windrush, eu disgynyddion a'u gwaddol.
>
> Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am gefnogi ein cynnydd a'n taith tuag at amrywiaeth a chynhwysiant drwy dreftadaeth."
>
> **Norma Gregory,**
> Arewinydd Treftadaeth Amrywiol yn Nottingham News Centre

## Stori'r prosiect

### Industrial Voices of Windrush - Nottingham

**Lleoliad:** Nottingham

**Dyfarnwyd:** £9,700

Nod prosiect Industrial Voices of Windrush Nottinghamshire oedd cynyddu dysgu ar gyfraniadau sylweddol cyn weithwyr 'diwydiannau trwm' i'w hardal leol, llawer ohonynt o genhedlaeth Windrush, trwy hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a dod â phobl ynghyd.

Dyma'r tro cyntaf i Nottingham News Centre wneud cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am grant. Gyda'u grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, roeddent yn gallu cynnal digwyddiad sgrinio ffilmiau a chyflwyniad treftadaeth ar Ddiwrnod Windrush (22 Mehefin 2023), yn ogystal ag arddangosfa deithiol gan Amgueddfa y Glowyr Du a darparu adnoddau addysgol amrywiol am ddim dros fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

## Stori'r prosiect

**Let's Celeb:rate! - b:friend**

**Lleoliad:** Sheffield

**Dyfarnwyd:** £9,991

Fe wnaethom roi ychydig o dan £10,000 i b:friend i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau i aelodau hŷn y gymuned i ddathlu nifer o eiliadau cenedlaethol yn 2023, gan gynnwys Coroni'r Brenin, Eurovision a 75 mlynedd ers Windrush ar draws De Swydd Efrog.

Nod y prosiect oedd cyflwyno a chynyddu cefnogaeth cyfeillio mewn cymunedau lleol, gan fod o fudd i bron i 165 o bobl dros 65 mlwydd oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac yn profi unigrwydd ac ynysrwydd.



## Stori'r prosiect

### Unity Hubb - Be men together

**Lleoliad:** Birmingham

**Dyfarnwyd:** £9,700

Ar hyn o bryd mae Unity Hubb yn rhedeg prosiect i ddynion, ac mae arian yn golygu y gall y grŵp nawr ddarparu gweithgareddau wythnosol ar gyfer dynion ynysig yn gymdeithasol, neu'r rhai sy'n profi galar neu golled, o wahanol gefndiroedd ethnig sy'n byw yn ardal Ward End Birmingham a'r cyffiniau.

Maen nhw'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gwaith coed a garddio i ddod â'r dynion hyn ynghyd , gan roi grŵp cymorth iddyn nhw sy'n helpu i gynyddu eu hyder, meithrin hunan barch a lleihau teimladau o unigrwydd.

"Mae ethos ein gwaith yn seiliedig ar ddull o'r enw datblygiad cymunedol seiliedig ar asedau....yr hyn rydyn ni'n ei wneud yw darparu lle diogel i bobl ddod, cwrdd â chymdogion, i gysylltu â phobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod, i ddysgu am ei gilydd."

**Rashta Butt,**
Rheolwr y Ganolfan a Datblygu Cymunedol






**Stori'r prosiect**

## Queer Emporium Community Program - The Queer Emporium Outreach

**Lleoliad:** Cymru

**Dyfarnwyd:** £9,850

Sefydlwyd y Queer Emporium yn 2021 fel siopdros dro i fynd i'r afael ag unigrwydd, ac ers hynny mae wedi tyfu i fod yn rhan allweddol o'r gymuned LHDTC+ yng Nghaerdydd a De Cymru.

Yn dilyn cael arian gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol am y tro cyntaf yn 2023 fe wnaeth alluogi Queer Emporium i sefydlu rhaglen gymunedol o ddigwyddiadau a chynnal cynlluniau peilot ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys "Speed Friendshipping ", digwyddiad parhaus sy'n cael ei redeg gan seicolegydd i helpu i ddod â phobl ynghyd, yn ogystal â bore coffi a "Clwb Cymraeg", sesiwn sgwrsio anffurfiol i bobl LHDTC+ siarad yn Gymraeg.

## Stori'r prosiect

### Eurovision @ Exeter Phoenix

**Lleoliad:** Caerwysg

**Dyfarnwyd:** £9,050

Mae Exeter Phoenix yn lleoliad ac elusen gelfyddydol gynhwysol a chroesawgar, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas. Maen nhw'n rhoi mynediad i'w cymuned i gannoedd o weithgareddau, perfformiadau, arddangosfeydd a chyfleoedd bob blwyddyn. Mae eu digwyddiadau yn cwmpasu celfyddydau gweledol cyfoes, digidol, ffilm a cherddoriaeth, i ddawns, theatr, comedi a'r gair llafar.

Mae gan y prosiect hanes o gefnogaeth Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, a'r Eurovision @Exeter Phoenix oedd eu hail grant ar ôl eu cyntaf yn 2017, ac fe wnaeth gefnogi'r sefydliad i greu hwb gwaith gymunedol greadigol.

Y tro hwn, defnyddiwyd yr arian i gyfuno'r dathliadau Pride ac Eurovision lleol yn un digwyddiad, gan ddathlu a chefnogi'r cymunedau ffoaduriaid LHDTC+ ac o Wcráin sy'n byw yng Nghaerwysg. Y syniad y tu ôl i'r prosiect hwn oedd rhoi cyfle i ymgysylltu â grwpiau ymylol lleol, gan eu cysylltu â'u cymunedau.

Ac fel y dywedodd un person hapus, mae'r arian wedi gwneud gwahaniaeth mawr:

**"Mae'r broses hon o greu celf gyda'n gilydd mewn gofod a rennir wedi rhoi gobaith a ffydd newydd i mi yn y gymuned ac yn ninas Caerwysg."**





## Stori'r prosiect

### South Shields Community Garden and Caterpillar Kitchen - NECA

**Lleoliad:** Newcastle Upon Tyne

**Dyfarnwyd:** £10,000

Mae'r prosiect hwn yn darparu gardd gymunedol a chegin mewn ardal lle mae mynediad i fannau tyfu yn gyfyngedig ond mae'r budd i deuluoedd a'r gymuned ehangach yn amhrisiadwy. Mae NECA yn gweithio ar draws ardal Tyne and Wear ac maen nhw'n ddeiliaid grantiau profiadol, ac maen nhw wedi cael arian ar gyfer prosiectau amrywiol sy'n cefnogi eu hasedau cymunedol poblogaidd, gan helpu i ddarparu cydlyniant cymunedol trwy ddigwyddiadau, grwpiau a gweithgareddau.

Eleni mae eu hail grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol wedi golygu bod tîm NECA wedi gallu adeiladu cegin lindys yn eu gardd gymunedol.

Mae'r gegin yn allweddol i ethos y prosiect o fynd â bwyd o hadau i blât ac mae'n golygu y gall teuluoedd lleol ddod at ei gilydd, tyfu cynnyrch, a dysgu paratoi, coginio a/neu gadw'r bwyd maen nhw wedi'i dyfu. Yn y gaeaf, mae'r gegin yn dyblu i ddarparu lle cynnes dan do i'r gymuned leol gan ddarparu gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ynysu cymdeithasol a lles meddyliol.

## Stori'r prosiect

### Ashes to Gold

**Lleoliad:** Londonderry, Gogledd Iwerddon

**Dyfarnwyd:** £9,880

Wedi'i leoli yng Ngogledd Iwerddon, mae gwella bywydau a hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol wrth wraidd y sefydliad Ashes to Gold. Mae Ashes to Gold wedi derbyn pum grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ers 2017. Y tro hwn, bydd arian yn galluogi'r sefydliad i gyflwyno sesiynau garddwriaethol a gwaith coed i grwpiau o oedolion ag anableddau corfforol, anableddau dysgu ac anafiadau i'r ymennydd. Cyfanswm nifer y sesiynau a gynhelir ar draws un flwyddyn fydd 26 sesiwn chwe awr.

Mae'r prosiect yn gwneud gwahaniaeth i'r defnyddwyr trwy ddarparu man dysgu yn yr awyr agored gyda hygyrchedd i oedolion ag anableddau corfforol. Mae dewisiadau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol gyda gweithgareddau awyr agored yn yr ardal leol yn brin i grwpiau ag anableddau, felly bydd y prosiect yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr ac yn rhoi seibiant i deuluoedd a gofalwyr.






Stori'r prosiect

## Computer Learning Programme - Sovereign House GH

**Lleoliad:** Salford

**Dyfarnwyd:** £10,000

Gyda thair rownd o grantiau Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol rhwng 2020 a 2023, mae'r Computer Learning Programme sy'n cael ei rhedeg gan Sovereign House GH yn brosiect parhaus, gyda'r nod o wella cyfleoedd bywyd a hunan-barch plant sy'n byw yn Salford, Manceinion Fwyaf, gan gyrraedd plant nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg. Cafodd Salford ei ddewis gan y sefydliad oherwydd y lefelau uchel o dlodi mewn perthynas ag ardaloedd cyfagos.

Mae'r prosiect yn dysgu sgiliau digidol a sgiliau bywyd eraill i blant y byddan nhw eu hangen i fagu eu hyder a'u gallu ar gyfer eu cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae'r dosbarthiadau i gyd yn gynhwysol ac o oedran a gallu cymysg, ac mae pob plentyn yn cymryd rhan yn y prosiect am o leiaf 12 mis. Mae rhai o'r cyrsiau y gall myfyrwyr eu cwblhau yn cynnwys Adeiladu Prosiectau, Dylunio Gwefan Ieithoedd Rhaglennu, E-ddiogelwch, Seiberddiogelwch Rhaglennu Data, Cyfrifiadura Cwmwl.

## Stori'r prosiect

### Overcoming Health Inequalities - Over 50s Black Men's Forum

**Lleoliad:** Essex

**Dyfarnwyd:** £10,000

Wedi'i ffurfio yn 2018, mae'r Over 50s Black Men's Forum yn sefydliad sy'n darparu rhwydwaith cymorth i ddynion du 50+ mlwydd oed nodi a mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder iddynt, ac i fynd i'r afael â materion rhagfarn ac anghydraddoldebau ethnig ar y cyd.

Mae'r arian hwn yn enghraifft wych o grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn helpu i barhau â phrosiect a ariannwyd yn flaenorol. Yn 2022, defnyddiwyd ein grantiau i gyflwyno seminar addysg iechyd a gweithdai ar gyfer dynion Du hŷn yn Essex, er enghraifft trwy weithdai CPR a sgwrs YouTube fyw gyda gweithwyr meddygol proffesiynol.

Nod y prosiect oedd hyrwyddo heneiddio'n iach, gan ganolbwyntio ar atal yn hytrach na gwella, a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl da. Yn dilyn llwyddiant y prosiect yn 2022, bydd yr ail rownd hon o arian ar gyfer y prosiect yn galluogi parhad rhaglen addysg iechyd ataliol gymunedol y sefydliad.





## Stori'r prosiect

### Men Matter Scotland

**Lleoliad:** Glasgow

**Dyfarnwyd:** £9,625

Defnyddiodd yr elusen Men Matter Scotland grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i ddarparu gwasanaeth cymorth cymheiriaid 12 wythnos yn ardal Drumchapel yn Glasgow. Mae'r ffocws ar ddynion sy'n cael trafferth gyda meddyliau hunanladdol a phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan oddeutu 20 o wirfoddolwyr ac mae'n cefnogi 1,000 o bobl. Cyflwynodd yr elusen brosiect newydd o'r enw Bros Bike Club yn ystod pandemig COVID-19, a gefnogwyd hefyd gan grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.

"Os gallwn ni wella lles pobl, mae effeithiau cryfach hynny, yr effaith ar eu teuluoedd, eu cymunedau a'u cymdogaethau yn gwbl aruthrol"

Gregor Ritchie,
Cyd-sylfaenydd a Rheolwr yn Men Matter Scotland

Stori'r prosiect

## Stepping Stones - Advantage! Barrow Raiders Community Foundation

**Lleoliad:** Cumbria

**Dyfarnwyd:** £10,000

Cyn sesiynau wythnosol Barrow Raiders Community Foundation, nid oedd cyfleusterau chwaraeon na sesiynau ffitrwydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng nghymunedau Barrow-in-Furness a Southlakes yn Cumbria. Mae Advantage! yn ceisio gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles eu cymuned, sy'n wynebu heriau sylweddol o ran tlodi plant a chanlyniadau iechyd oedolion.

Yn dilyn llwyddiant prosiectau amrywiol, mae'r prosiect Stepping Stones yn cynnig cyfle i bobl ifanc, nad ydynt efallai'n cael eu denu at ddiwylliant aelodaeth clwb i ddechrau, gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau traddodiadol ac amrywiol am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys rygbi, pêl-osgoi, athletau, boxercise a ffrisbi.



## Stori'r prosiect

### Giggle Doctor Programme - The Theodora Children's Charity

**Lleoliad:** Ledled y DU

**Dyfarnwyd:** £10,000

Gweledigaeth Theodora Children's Charity yw cyfrannu at les plant mewn ysbytai a chanolfannau gofal arbenigol ledled Lloegr sy'n byw gyda salwch, anabledd a heriau iechyd difrifol. Mae eu Giggle Doctors yn berfformwyr proffesiynol fel actorion a chonsurwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymweld â phlant mewn amgylchedd meddygol neu drwy eu rhaglen ymweliadau rhithiol.




"Mae grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol wedi cael effaith enfawr ar ein gwaith. Rydym ni wedi gallu cyrraedd mwy o ysbytai ac o ganlyniad, roedd ein Giggle Doctors wedi gallu ymweld â mwy o blant a theuluoedd. Roedd gwneud cais am arian yn broses wych - unrhyw gwestiynau oedd gen i, gallwn ddod o hyd i atebion iddynt. Roedd pawb y siaradais i â nhw yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar."

Ellen Blessington,
Uwch Gynghorydd Arian Cymunedol a Chyfathrebu




DanceSyndrome
Lloegr

# Sut rydym ni'n dyfarnu arian ar gyfer Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol

# Ni fydd y ffordd rydym ni'n dyfarnu grant bach yn newid.

## Yr hanfodion

Rydym ni'n gofyn i bobl wirio ein gwefan a dewis y dudalen ariannu ar gyfer y wlad lle mae'r prosiect wedi'i leoli. Mae rhai elfennau hanfodol y bydd pobl eu hangen i wneud cais, gan gynnwys:

- Enw cyfreithiol y sefydliad a manylion cyswllt dau berson o'r sefydliad.
- Cyfrif banc gyda banc cofrestredig yn y Deyrnas Unedig.
- Mae angen i'r sefydliad fod yn sefydliad cymunedol â chyfansoddiad ffurfiol, elusen gofrestredig, cwmni dielw, corff statudol, ysgol neu gymdeithas er budd cymunedol.
- Dylai'r prosiect gynnwys cymuned o'r dechrau, o'r dyluniad, y datblygiad, hyd at gyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd.



Ellesmere Children's Centre, Lloegr

## Ymgeisio

Gall pobl ddefnyddio ein gwefan i anfon eu cais atom, a gan ein bod yn cael mwy o geisiadau nag arfer, gall gymryd hyd at 16 wythnos o'r adeg pan fyddwch chi'n cyflwyno cais i gael penderfyniad gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.

Mae'r newidiadau i'n rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn golygu y bydd pobl yn gallu gwneud cais am rhwng £300 ac £20,000 i dalu am rywfaint neu'r cyfan o gostau'r prosiect, ar gyfer prosiectau a all bara hyd at ddwy flynedd.

## Ein proses

Yn ystod ein hasesiad byddwn yn edrych ar sut mae eich prosiect yn cyflawni o leiaf un o'r pethau canlynol.

- Dod â phobl at ei gilydd i feithrin perthnasoedd cryf mewn cymunedau ac ar draws cymunedau.
- Gwella'r lleoedd a'r mannau sy'n bwysig i gymunedau.
- Helpu mwy o bobl i gyrraedd eu potensial, trwy eu cefnogi ar y cam cynharaf posibl.
- Cefnogi pobl, cymunedau a sefydliadau sy'n wynebu mwy o ofynion a heriau oherwydd yr argyfwng costau byw.

Ar adegau rydym ni'n sylwi nad oes gennym ni ddigon o arian i gefnogi'r holl geisiadau yr hoffem ni eu cefnogi. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen i ni wneud penderfyniadau anodd.

Dylai eich prosiect gynnwys eich cymuned.

Pobl sy'n gwybod orau beth maen nhw ei angen yn eu cymunedau. Mae'n bwysig cynnwys eich cymuned o'r dechrau - wrth ddylunio, datblygu a chyflwyno'r gweithgareddau rydych chi'n eu cynllunio.

Rydym ni am ariannu prosiectau sy'n gysylltiedig â phobl leol a'u cymunedau, a defnyddio eu sgiliau a'u profiad presennol.

Ein nod yw asesu pob cais yn gyfartal ac yn deg ac mae ein tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod eu hasesiadau. Mae ein rheolwyr yn cymeradwyo'r penderfyniadau terfynol.

## Ein penderfyniad

Ein nod yw cael penderfyniad o fewn 16 wythnos o dderbyn cais llawn. Yna rydym ni'n sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gywir ac fel sydd wedi'i nodi yn y cais.



# Casgliad

Yallaa Women's Choir
Gogledd Iwerddon

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd enfawr ein rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.

Mae ein harian yn cyrraedd cymunedau'n uniongyrchol ac yn chwarae rhan bwysig mewn buddsoddiad ehangach mewn ardaloedd ledled y DU.

Wrth i ni fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecwiti o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, boed hynny drwy grantiau sy'n cefnogi prosiectau dan arweiniad lleol lle mae pobl yn dod at ei gilydd, yn annog arferion ac ymddygiadau amgylcheddol gynaliadwy ymhlith cymunedau, yn galluogi pobl leol i fyw bywydau iachach neu helpu i ledaenu addysg a dysgu, mae ein grantiau bach yn cael effaith enfawr ledled y DU.

Yn dilyn ein proses adnewyddu strategaeth ddiweddar, rydym ni'n gwybod fod lle i dyfu'r effaith hon. Mae'r angen am gymorth cymunedol yn glir, ac mae ein penderfyniad i ddyblu faint o arian sydd ar gael, yn ogystal â dyblu'r amser mae prosiectau yn ei gael i gyflawni'r gwaith, yn cefnogi'r angen hwnnw.

Trwy grantiau bach i gymunedau a'r bobl sy'n byw ynddynt mae prosiectau newydd yn cael eu geni, cysylltiadau newydd yn cael eu gwneud a chryfhau cysylltiadau cymunedol, gan helpu i drawsnewid cymunedau. Rydym ni'n hyderus bod yr adroddiad hwn yn rhoi syniad da i chi o'r amrywiaeth o brosiectau rydym ni wedi eu hariannu trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru.

Rydym ni'n gyffrous i weld sut y bydd cymunedau'n defnyddio'r newid ariannol mawr hwn i allu cyflawni prosiectau y mae mawr eu hangen ledled y DU.


Flourish, Cymru

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r cyllidwr cymunedol mwyaf yn y DU ac mae'n falch o ddyfarnu arian sy'n cael ei godi gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Rydym ni'n credu mai Cymuned yw'r Man Cychwyn. Rydym ni'n credu bod cysylltiadau cymdeithasol a phrosiectau cymunedol wrth wraidd creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas sy'n ffynnu.

## Cysylltwch â ni

**I gael gwybod mwy am yr adroddiad hwn neu i siarad â'n tîm Ymgysylltu:**

E-bost: public.affairs@tnlcommunityfund.org.uk

**I gael gwybod mwy am ein cyllid a'n hymchwil:**

Ewch i'n gwefan: tnlcommunityfund.org.uk
Ffoniwch ein llinell gyngor: 0345 4 10 20 30
Cyfnewid Testun: 18001 a 0345 4 10 20 30

Tachwedd 2023